# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW 23/10/18

**YN BRESENNOL:**

**Aelodau**: Cyng. Gethin Glyn Williams (Cyngor Gwynedd), Cyng. Eryl Jones-Williams (Cyngor Gwynedd), Cyng. Louise Hughes (Cyngor Gwynedd), Cyng. R. Triggs (Cyngor Tref Abermaw), Cyng. Mark James (RNLI), Mrs Wendy Ponsford (Aelod o Glwb Hwylio Meirionnydd)

**Swyddogion:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Glyn Jones (Harbwr Feistr Abermaw), Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau) a Mererid Watt (Cyfieithydd)

**Eraill a wahoddwyd:** Mike Scott (Ymddiriedolaeth Mwynderau'r Friog) ar gyfer eitem 8 yn unig.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Ioan Ceredig Thomas (Aelod Cabinet - Economi), Dr John Smith (Grŵp Mynediad Traphont Abermaw), Mr Martin Parouty (Grŵp Defnyddwyr Harbwr Abermaw) a Mr Mike Ellis (Pwyllgor Ras y Tri Chopa)

## 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ail ethol y Cynghorydd Gethin Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2018/19.**

## 2. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ail ethol y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2018/19.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o gysylltiad personol gan yr aelodau isod am y rhesymau a nodir:

(a) Cyng. Gethin Williams – aelod o'r Ymddiriedolaeth Cymunedol
(b) Mrs Wendy Ponsford – aelod o'r Clwb Hwylio, aelod o'r Ymddiriedolaeth Cymunedol
(c) Cyng. Rob Triggs – aelod o'r Ymddiriedolaeth Cymunedol, aelod o'r Clwb Hwylio

Ni fu i'r Aelodau bleidleisio ar faterion a oedd yn ymwneud â'u buddiant personol.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 6 Mawrth, 2018, fel rhai cywir.

Dymunwyd ymddeoliad hapus i Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau) am ei chefnogaeth a'i gwasanaeth i'r Pwyllgor dros y blynyddoedd.

**Materion yn codi o'r cofnodion:**

(a) **Cynnal a Chadw**
Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i holi'r Uwch Swyddog Harbyrau a Harbwr Feistr Abermaw am raglen waith cynnal a chadw dros gyfnod y gaeaf.

(b) **Digwyddiadau**

Derbyn bod lle i wella’r broses o atgoffa trefnwyr i gysylltu gyda’r Gwasanaeth Morwrol yn gyntaf i gael caniatâd i gynnal gweithgareddau a chryfhau trefniadau o ddydd i ddydd.

Adroddwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal ynglŷn â digwyddiad Motorcross yn gwrthdaro gyda gwyliau Hanner Tymor Gwynedd a’r diffyg cyfathrebu rhwng y trefnwyr a Chyngor Tref Abermaw. Nodwyd bod Mr Arnold (trefnwr y Motorcross) angen cadarnhad o ddyddiadau 2019 cyn mis Rhagfyr er mwyn trefnu’r digwyddiad. Ategwyd nad oedd modd newid y dyddiad ar gyfer 2018 gan fod rhaglen digwyddiadau Motorcross ar draws y wlad eisoes wedi ei chyhoeddi. Gwnaed awgrym y dylid osgoi penwythnosau hanner tymor mis Hydref (Gwynedd) a hefyd rhoi ystyriaeth i ddyddiad Sul y Cofio.

**Awgrymwyd 9/10 neu 16/17 o Dachwedd fel nad oedd gwrthdaro gyda hanner tymor. Nodwyd bod y digwyddiad yn un pwysig i’r ardal ac nad oedd eisiau ei golli. Pwysleisiwyd yr angen i gadarnhau’r dyddiadau gyda Mr Arnold cyn mis Rhagfyr 2018**

**(c) Ffonau Gwasanaeth Brys Y Friog**

Amlygwyd, yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor i gyfleu i’r Aelod Cabinet perthnasol i waredu'r ffonau gwasanaethau brys oherwydd diffyg defnydd, nad oedd hyn wedi digwydd. Awgrymwyd, cyn gwaredu, y dylid ymgynghori ymhellach gyda Gwylwyr y Glannau a Mudiad y Bad Achub o ddefnydd y ffonau.

**(ch) Gweithgareddau FLAG (Fisheries Local Action Group)**

Adroddwyd bod y gweithgareddau wedi bod yn llwyddiannus a bod bwriad cynyddu'r fenter i’r dyfodol. Diolchwyd i bawb oedd wedi bod yn rhan o’r trefniadau.

Nododd y Cynghorydd Tref nad oedd wedi gallu mynychu cyfarfodydd Grwp FLAG yn yr ardal ac awgrymodd y dylid cynnig yr aelodaeth i rywun arall.
Cadarnhawyd mai cynrychiolaeth gan unrhyw **un** o aelodau Cyngor Tref Abermaw oedd dymuniad y Grwp FLAG

**(d) Clirio Tywod**

Mewn datganiad nad oedd modd gweld y môr o Abermaw, nodwyd yn dilyn cyfarfodydd gyda Ymgynghoriaeth Gwynedd nad oedd modd symud tywod. Er hynny, amlygwyd bod datganiadau positif wedi eu cynnwys mewn cylchgrawn yn mynegi bod y traeth yn adnodd bendigedig, y morglawdd yn boblogaidd a’r sianel yn glir.

**(dd) Carthu**

Rhagwelir mai Doc Fictoria a Harbwr Pwllheli yn unig fydd yn cael ei carthu

**(e) Cyngor Cymuned Arthog - rheoli mewn llifiad traffig**

Gyda mewnlifiad sylweddol o draffig twristiaeth i’r ardal adroddwyd er bod cyfarfod wedi ei gynnal gyda’r Adran Trafnidiaeth ymddengys nad oedd pethau yn symud ymlaen i ymateb i’r cynnydd. Amlygwyd bod Cyngor Cymuned Arthog yn cydweithio gyda Grŵp yn Y Friog i geisio adfer rhai o'r materion oedd yn cynnwys camau

gweithredu i atal parcio dros nos. Cadarnhawyd bod yr Aelod Cabinet perthnasol yn derbyn copi o raglen y Pwyllgor ac felly yn ymwybodol o'r materion.

Mewn ymateb i sylw bod Cyngor Tref Y Bala wedi cyflogi swyddog gorfodaeth eu hunain, awgrymwyd y dylai'r Cynghorydd Louise Hughes gysylltu gyda'r Cynghorydd Tref am fanylion perthnasol deddf gorfodaeth, fel y gellid codi'r mater yng nghyfarfod nesaf Cyngor Cymuned Arthog

**(f) Difrod i reiliau tu allan i Adeilad Dora**

Adroddwyd mai Cyngor Gwynedd oedd wedi ysgwyddo'r baich am dalu am y difrod. Ategwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r perchennog gyda rhybudd, petai difrod pellach y byddai'r Cyngor yn cymryd camau i adennill costau.

## 5. DIOGELWCH HARBWR

Nodwyd nad oedd unrhyw fater o ran diogelwch harbwr wedi ei gyflwyno o fewn y cyfnod ond tynnwyd sylw at bryder bod plant ifanc yn dringo ar hyd yr adeiladau, cychod, cewyll ac offer pysgota yn Aberdyfi. Gwnaed sylw bod angen sicrhau bod y safle yn ddiogel a gwneud cais i berchennog unrhyw offer gwblhau asesiad risg.

## 6. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

**(a) Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Swyddog Harbyrau yn rhoi diweddariad cryno ar faterion yr Harbwr am y cyfnod rhwng Mawrth 2018 a Hydref 2018. Yn dilyn Haf arbennig gyda chynnydd sylweddol mewn niferoedd yn ymweld a'r ardal, adroddwyd nad oedd yr adnoddau'r Gwasanaeth yn ddigonol i ymateb i'r holl faterion ac amlygwyd hyn fel risg uchel. Ategwyd bod un ddamwain angheuol wedi digwydd a bod ymateb i'r crwner wedi ei weithredu. Nodwyd hefyd bod y staff yn gorfod delio gyda sefyllfaoedd anodd iawn ac mewn ymateb i hyn amlygwyd bod cyfarfod wedi ei drefnu gyda Gwylwyr y Glannau i drafod y sefyllfa ymhellach. Adroddwyd bod y Gwasanaeth dan bwysau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â nifer yr angorfeydd yn lleihau, adroddwyd bod hyn yn batrwm sydd i'w weld mewn harbyrau naturiol. Ategwyd bod y diwydiant ei hun yn dioddef, ond er y lleihad nid oedd yn cael effaith ar y budd economaidd wrth edrych ar y sefyllfa yn ei gyfanrwydd e.e., gwelwyd cynnydd positif mewn niferodd cychod pŵer. Nododd yr Harbwr Feistr mai newid mewn diwylliant yw un rheswm dros leihad yn y nifer o gychod hwylio gyda'r angen am bŵer a chyflymdra yn cynyddu. Ategwyd bod cwsmeriaid angen 'prynu adnodd', megis angorfeydd, fel eitem ac mai proses hirwyntog yw'r broses sydd yn bodoli ar hyn o bryd.
**I gyfarch hyn, awgrymwyd gwasanaeth hwyluso taliadau a gwnaed cais am adroddiad i'r cyfarfod nesaf yn rhestru'r opsiynau posib.**

Ategodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod adolygiad yn cael ei wneud gan y Gwasanaeth yn holi pam bod perchnogion angorfeydd wedi ymadael ac y byddai adroddiad ar y canfyddiadau yn cael ei gyflwyno (i bob Pwyllgor Harbwr ) ym mis Mawrth 2019.

Yng nghyd-destun, gosod angorfeydd, amlygwyd bod Cyngor Tref Abermaw wedi ystyried cyllido costau angorfeydd a bod bwriad ganddynt i godi arian ar gyfer pontwns. Amlygwyd yr angen i gadarnhau trefniadau perchnogaeth ac awgrymwyd

y dylai'r Cynghorydd Tref gyfarfod gyda'r Uwch Swyddog Harbyrau a'r Harbwr Feistr i drafod ymhellach. O ran carthu, byddai angen trwydded i weithredu. Gyda chyllidebau'r Cyngor yn dynn ac yn wynebu toriadau pellach ni fyddai modd i'r Cyngor ariannu carthu'r Harbwr. Awgrymwyd y dylai'r Cynghorydd Tref ymgynghori gyda Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig i gydsynio i ysgrifennu llythyr at CNC i gael gweithredu. Awgrymwyd bod y gymuned yn barod i godi'r arian.

Canmolwyd cymuned Abermaw am eu parodrwydd i gydweithio a cheisio'r gorau i'r dref yn wyneb toriadau i gyllidebau Cyngor Gwynedd. Dylid eu cymeradwyo a'u llongyfarch am eu gwaith da.

Adroddwyd bod archwilwyr yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau i ailymweld a'r gwasanaeth fis Hydref eleni fel dilyniant i'r adolygiad a gynhaliwyd 2017. Oherwydd amgylchiadau annisgwyl nodwyd y byddai rhaid gohirio'r ymweliad tan fis Mawrth 2019. Bydd gwahoddiad i holl Aelodau'r Pwyllgorau Ymgynghorol fynychu cyfarfod ym Mhorthmadog.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at fwriad y Gwasanaeth i gyflogi cymhorthydd harbwr llawn amser i weithio yn Harbyrau Abermaw, Aberdyfi a Porthmadog. Mewn ymateb y dylai'r gwasanaeth ystyried yn ofalus lle byddai'r swyddi yn cael eu hysbysebu a hefyd awgrym i geisio prentisiaethau. Gwnaed cais i'r Gwasanaeth rannu'r hysbyseb gyda'r Cyngor Tref.

**(b) Adroddiad yr Harbwr Feistr**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Harbwr Feistr yn manylu ar faterion mordwyo, gweithredol a chynnal a chadw. Tynnwyd sylw at yr angen i wneud mwy o waith ar y materion canlynol:

- arwyddion diogelwch traeth Abermaw wedi bod yn llwyddiannus er bod angen mwy o arwyddion tebyg yn yr Harbwr oherwydd cynnydd yn y nifer o bobl sydd yn cerdded drwy'r Harbwr.
- Bod angen clirio ardal lloc y pysgotwyr gan ail leinio'r ardal. Awgrym i greu cytundeb newydd gydag amod i'w gadw'n lan.
- Y gellid defnyddio tir Ffordd y Compownd ar gyfer parcio. Angen eglurder pwy yw perchennog y tir a gwirio trefniadau gorfodaeth.
  **Gwnaed cais gan y Pwyllgor i roi gorchymyn traffig ar y tir gan fod 16 lle ar gael. Gellid cynnig man parcio gyda Lloc y Pysgotwyr am gost ychwanegol.**
- Rheolaeth pontŵn yr harbwr - Aelod Grŵp Mynediad Traphont Abermaw i drefnu cyfarfod gyda'r Harbwr Feistr i drafod ymhellach
- Cadw cychod dros y Gaeaf - angen annog defnyddwyr i aros. Cais i'r Harbwr Feistr ganfod syniadau gan ddefnyddwyr yr Harbwr am gymhelliant posib.
- Digwyddiadau - angen sicrhau bod digwyddiadau yn cael eu cofnodi gan Reolwr Digwyddiadau Cyngor Gwynedd fel llwyddiannau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau.**

**8. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

**(a) Ystyried cynrychiolydd o Ymddiriedolaeth Mwynderau'r Friog fel aelod cyfetholedig ar y Pwyllgor.**

Cyfeiriodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig at Gylch Gorchwyl y Pwyllgorau Harbwr gan gadarnhau'r Aelodaeth

- hyd at 4 aelod lleol o Gyngor Gwynedd

- Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sydd yn gyfrifol am bortffolio awdurdod harbwr
- Un aelod o Gyngor Tref
- Hyd at 7 aelod arall i gynrychioli gwahanol fuddiannau defnyddwyr yr harbwr

Gyda Aelodaeth bresennol Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw yn gyflawn byddai cais ychwanegol yn mynd tu hwnt i fframwaith gorfodaeth y Cyngor.

Amlygwyd bod sedd wag gan Cyngor Cymuned Arthog ac awgrymwyd y gellid penodi un cynrychiolydd fyddai yn cynrychioli dau gorff.

Nodwyd bod cynrychiolydd Grŵp Mynediad Traphont Abermaw wedi ymddiswyddo ac mai cyfrifoldeb y Gymdeithas oedd ethol cynrychiolydd newydd.

Nodwyd bod cynrychiolydd Ras y Tri Chopa hefyd yn dymuno ymddiswyddo ac mai cyfrifoldeb y Pwyllgor hwnnw fyddai ethol cynrychiolydd newydd

Pwysleisiwyd bod cyfrifoldeb ar y cyrff uchod i roi gwybod i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig neu'r Swyddog Cefnogi Aelodau o'r enwebiadau newydd.

Diolchwyd i Mr Mike Ellis (Pwyllgor Ras y Tri Chopa) am ei gyfraniad arbennig i'r Pwyllgor dros y blynyddoedd.

**9. CYFARFOD NESAF**

Nodwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 26ain Mawrth, 2019.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 12:30pm